



Goroesi a Ffynnu

Llwybr Ymaddasiadau

Rhifyn y Tai Gwydr

Ymaddasiadau Planhigion

Mae planhigion wedi esblygu dros amser i weddu i'w hamgylchedd gan eu caniatáu i oroesi a ffynnu mewn cynefinoedd gwahanol.

Gelwir y rhain yn ymaddasiadau, ac mae yna sawl ffurf. Mae rhai yn ffisegol, er enghraifft drain a dail suddlon, ac mae rhai ynghudd, er enghraifft prif wreiddiau mawr sy'n ymestyn yn ddyfnach i'r ddaear i gyrraedd dŵr.

Mae ymaddasiadau wedi esblygu dros filiynau o flynyddoedd, ac ni fyddai'r rhan fwyaf o blanhigion yn bodoli hebbyd nhw. Mae gennym sawl enghraifft o ymaddasiadau planhigion yma yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, yn enwedig yn y tai gwydr. Rydyn ni wedi dewis rhai o'n ffefrynnau i chi ddod o hyd iddyn nhw eich hun!

Nawr eich bod yn arbenigwr ar ymaddasiadau, a allwch chi weld planhigion eraill sydd ag ymaddasiadau unigryw o amgylch yr Ardd? Does dim rhaid iddyn nhw fod yn y tai gwydr!



garddfotaneg.cymru
botanicgarden.wales

Lluniau | Charity Number - 1036354

Lluniau | Photos - El James
Dylunio | Design - Jac Towler

1. *Euphorbia polygona* · Casgen Llaeth Affricanaidd



Planhigyn o Dde Affrica sydd wedi ymaddasu i oddef sychder trwy ei natur suddlon, gan ei alluogi i storio dŵr. Mae hefyd wedi datblygu ymddangosiad pigog, sy'n deillio o stipylau wedi'u haddasu. Peidiwch â'i ddrysu â chactws!

2. *Vachellia karroo* · Draenen Felys



Mae gan yr acasia ddi-ddorol hon, sydd hefyd yn dod o Dde Affrica, ddrain sy'n gweithredu fel mecanwaith i amddiffyn rhag llysysyddion. Yn yr achos hwn, rhag y jiráff! Mae iddynt hefyd y fantais ychwanegol o ddarparu amddiffyniad i adar bach rhag ysglyfaethwyr.

3. *Aloe arborescens* · Aloe Canhwyllau



Mae planhigion aloe yn enwog am eu dail suddlon, ond oeddech chi'n gwybod bod eu blodau yr un mor hudolus? Mae'r blodau ar ffurf tiwb hir, ac wedi'u cynllunio i ddenu adar megis yr Aderyn Haul, y mae ei big hir yn cyrraedd y neithdar yn rhwydd. Mae coesyn trwchus y blodau hefyd yn helpu i gynnal yr aderyn wrth iddo fwydo.

4. *Salvia rosmarinus* · Rhosmari



Efallai eich bod yn adnabod y planhigyn hwn, sy'n aml yn cael ei ddefnyddio fel perlysiuyn. Ond oeddech chi'n gwybod bod arogl hyfryd rhosmari yn bodoli i atal ysglyfaethwyr? Dydy e ddim yn ein hatal ni yn bendant!

5. *Melaleuca elliptica* · Brws Potel Gwenithfaen



Mae tanau gwyllt yn gyffredin yng Ngorllewin Awstralia, felly mae llawer o blanhigion wedi gorfod addasu i hyn. Bydd rhisgl tenau Melaleuca yn llosgi'n gyflym, gan atal gweddill y planhigyn rhag deifio.

6. *Banksia blechnifolia* · Bancsia Rhedynddail




Os edrychwch yn ofalus, gallwch chi weld bod dail y planhigyn hwn wedi'u leinio â ffwr. Mae hyn yn ei amddiffyn rhag yr haul! Eli haul naturiol. Mae codennau hadau y planhigyn hwn hefyd wedi addasu i dân, maen nhw'n rhyddhau pan fyddant wedi llosgi.

7. *Nepenthes maxima* · Piserlys Mawr




Mae rhai planhigion yn wahanol iawn i'r disgwyl. Mae hwn yn tyfu cwpanau bach o'r enw piseri sy'n cynnwys hylif treulio sy'n denu pryfed â'i arogl. Yna, mae'r pryfyn yn cwmpo i mewn ac yn cael ei hydoddi gan y sudd yn y gwaelod. Ffordd wych o gael y maethynnau hanfodol hynny!

8. *Monstera deliciosa* · Y Ddeilen Dyllog



Mae'r Monstera, sy'n tarddu o goedwigoedd trofannol toreithiog Mecsico, yn defnyddio gwreiddiau awyrol i ddringo planhigion cyfagos i chwilio am oleuni. Mae'r tyllau yn ei ddail yn caniatáu i olau gyrraedd y dail is a hefyd yn ei warchod rhag gwyntoedd cryfion a glaw. Mae blaen pigfain y ddeilen, yn sicrhau bod dŵr yn llifo i ffwrdd yn gyflym.

9. *Aechmea coelestis* · Bromeliad Glas Yr Awyr



Mae bromeliadau yn epiffytâu, sy'n golygu eu bod yn tyfu ar blanhigion eraill i gael dŵr a maethynnau. Edrychwch yn ofalus ar y planhigyn hwn, ac fe welwch chi gronfa siâp twmffat sy'n llawn dŵr. Mae'r gronfa hon yn dal llawer iawn o fywyd microsgopig sy'n cynhyrchu'r maethynnau.

Ewch ati i archwilio planhigion o chwe rhanbarth yn ein Tŷ Gwydr Mawr: Califfornia, Awstralia, yr Ynysoedd Dedwydd, Chile, De Affrica, a Basn y Canoldir. Mae'r ardaloedd hyn yn rhannu hinsawdd Môr y Canoldir – hafau poeth, sych, gaeafau claeaf, a heulwen tanbaid – ac yn lletya dros 20% o'r holl blanhigion blodeuol, er gwaetha'r ffaith eu bod yn gorchuddio llai na 2% o arwyneb y Ddaear.

Ewch i mewn i'n Tŷ Trofannol i ddarganfod planhigion llachar y coedwigoedd glaw, wedi'u haddasu i amodau poeth, llai â glawiad uchel. Mae coedwigoedd trofannol, sy'n gorchuddio dim ond 6% o'r tir, yn fan arbennig o ran bioamrywiaeth, gan letya dros 80% o rywogaethau'r byd sydd wedi'u cofnodi.